**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-DM-2949-23

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, yr Iaith Gymraeg, Pwyllgor Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon

17 Ionawr 2024

Annwyl Delyth,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar 'Tu ôl i'r llenni: Gweithlu'r diwydiannau creadigol', ac eich bod yn cytuno i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ein hymateb. Mae'n bleser gennyf amgáu copi o ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r adroddiad uchod.

Mae nifer o'r argymhellion yn galw am weithredu ar draws is-sectorau o fewn cylch gwaith Cymru Greadigol a'r Is-adran Ddiwylliant, gan gynnwys trwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion sy'n cwmpasu'r diwydiannau creadigol fel y'u cefnogir gan Cymru Greadigol a'r sectorau diwylliannol, gan alw am weithredu drwy'r Strategaeth Ddiwylliant. Lle mae hyn yn wir, rydym wedi ceisio esbonio'r gwahanol safbwyntiau ar draws yr adrannau a'r cyrff hyn ar wahân.

Mae'r Strategaeth Ddiwylliant bellach yn bodoli ar ffurf ddrafft ac yn ddiweddar mae wedi cael ei phrofi gyda phartneriaid dibynadwy. Mae cyllideb 2024/25 yn heriol dros ben, ac rydym ar hyn o bryd yn ystyried goblygiadau posibl hyn i'n diwydiannau creadigol a'n sectorau diwylliannol. Rwy'n trafod gyda'r Aelod Dynodedig yr amseriad mwyaf priodol ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth a sut y gallai unrhyw doriadau yn y gyllideb arwain at ganlyniadau i'n huchelgeisiau yn y tymor byr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu yn sgil cyhoeddi datganiad yr Hydref er mwyn rhyddhau cyllid o bortffolios i'w ailddyrannu o fewn Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r pwysau cynyddol ar gyllideb Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. O ran y Strategaeth Ddiwylliant, gwyddoch ein bod bellach ar gam lle mae gennym strategaeth ddrafft ddiwygiedig a chynllun gweithredu drafft. Yn amlwg o ganlyniad i setliad y gyllideb, mae angen i ni ystyried goblygiadau'r toriadau hyn ar ddatblygiad y Strategaeth Ddiwylliant.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NS

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.